



GRANTIAU CYHOEDDI CYMRAEG
CANLLAWIAU AC AMODAU
GRANTIAU MARCHNATA LLYFRAU I GYHOEDDWYR UNIGOL

A CANLLAWIAU

1 AMCANION

Amcan y cynllun yw hybu gwerthiant llyfrau Cymraeg trwy gynnig grantiau i gyhoeddwr nad ydynt yn gyhoeddwr rhaglen tuag at farchnata llyfrau y tu hwnt i'w cynlluniau marchnata arferol, yn arbennig felly i brynwyr a darllenwyr newydd.

2 CYMHWYSTER

Pwy sy'n gymwys i ymgeisio?

Mae'r cynllun yn agored i gyhoeddwr nad ydynt yn gyhoeddwr rhaglen ar gyfer hyrwyddo a chynyddu gwerthiant teitlau sydd wedi derbyn grantiau cyhoeddi oddi wrth Gyngor Llyfrau Cymru.

Pa weithgareddau sy'n gymwys i dderbyn cefnogaeth?

Croesewir ceisiadau dychmygus am unrhyw weithgaredd sy'n anelu at gynyddu gwerthiant cyfrol neu gyfrolau penodol, ond dyma enghreifftiau o'r math o weithgareddau a allai ddod o fewn y cynllun.

- Lansïadau – digwyddiadau poblogaidd gyda chynulleidfaoedd o tua 60 o bobl i ddathlu cyhoeddi un neu ragor o gyfrolau. Disgwylir i'r digwyddiad ddenu sylw ehangach i'r gyfrol a'r awdur trwy gyfrwng cynifer â phosibl o gyfryngau newyddion ac i sicrhau cymaint â phosibl o werthiant.
- Teithiau Hyrwyddo – dau neu ragor o ddigwyddiadau yn canolbwyntio ar lyfr neu lyfrau penodol. Disgwylir y bydd modd eu hyrwyddo fel pecyn o ddigwyddiadau sydd â'r potensial o godi momentwm a sylw wrth fynd rhagddynt. Fel uchod, disgwylir cynulleidfaoedd o tua 60 ar gyfartaledd a sylw ehangach i'r gyfrol a'r awdur trwy gyfrwng cynifer â phosibl o gyfryngau newyddion ac i sicrhau cymaint â phosibl o werthiant.
- Defnydd o Dechnoleg – ceisiadau i ddatblygu ffyrdd technolegol o hyrwyddo cyfrolau sy'n arwain at gynnydd mewn gwerthiant. Eto, disgwylir i hyn fod y tu hwnt i raglen hyrwyddo arferol y cyhoeddwr.
- Cyflogi Hyrwyddwr – bydd posib gwneud cais i gyflogi unigolyn neu gwmni i hyrwyddo llyfr neu lyfrau gyda'r nod penodol o gynyddu gwerthiant.
- Deunydd Marchnata – ystyrir ceisiadau am ddeunydd marchnata pwrpasol ar gyfer pecyn o ddeunydd neu daith, sydd y tu hwnt i gynllun marchnata cyffredinol y cyhoeddwr.
- Staff – ystyrir ceisiadau i dalu am amser staff y cyhoeddwr i ymgymryd â gwaith hyrwyddo ar lyfrau a noddir y tu hwnt i'w horiau gwaith arferol.



Cyffredinol

- disgwylir cynulleidfa o tua 60 o bobl neu ragor;
- croesewir lansio dwy neu ragor o gyfrolau gyda'i gilydd;
- croesewir cydweithrediad rhwng dau neu ragor o gyhoeddwr;
- croesewir ceisiadau i hyrwyddo llyfrau dysgwyr, oedolion, plant a ieuenctid;
- anogir manteisio ar achlysur sy'n bod eisoes er mwyn cynnal digwyddiad hyrwyddo, e.e. gŵyl, cynhadledd neu rali ffermwyr ieuanc ayyb.;
- bydd cynllun i gael sylw'r teledu yn fanteisiol i'r cais;
- bydd disgwyl i'r llyfrau gael eu gwerthu gan lyfrwerthwr cydnabyddedig, a rhaid i'r llyfrwerthwr dderbyn y llyfrau hynny trwy Ganolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau;
- yn achos cyflogi hyrwyddwr bydd gofyn dangos tystiolaeth o brofiad hyrwyddo yr unigolyn/cwmni;
- yn achos deunydd print, ni fydd y Cyngor yn fodlon gwario'n sylweddol ar daflenni a phosteri;
- ni chaniateir mwy na £4 y pen ar gyfer unrhyw ddiod a lluniaeth.

3 BLAENORIAETHAU A MEINI PRAWF AR GYFER CLORIANNU CEISIADAU

Bydd pwyslais ar yr elfennau canlynol o ran cloriannu'r ceisiadau:

- rhoddir blaenoriaeth i'r cynlluniau sy'n debygol o wneud y gwahaniaeth mwyaf o ran gwerthiant;
- dylid anelu at ddenu prynwyr newydd lle bynnag mae hynny'n bosibl;
- mae'n bwysig dewis y llyfrau sy'n addas i'w hybu, llyfrau a fydd ar eu hennill o gael eu marchnata;
- gwerth ychwanegol: rhaid i gyhoeddwr ddangos sut y mae'r cynlluniau marchnata a gynigir yn ychwanegu at y gwaith marchnata sylfaenol a fwriadwyd ar bob cyfrol.
- gwerth ychwanegol: rhaid i gyhoeddwr ddangos sut y mae'r cynlluniau marchnata a gynigir yn ychwanegu at y gwasanaethau canolog a gynigir gan CLLC, e.e. Gwales a'r ymgyrchoedd hyrwyddo tymhorol;
- bydd pwyslais ar geisiadau sy'n gweu amrywiaeth o gyfryngau torfol a chyfryngau cymdeithasol i mewn i'w cynllun.

4 Y GRANT

Cynigir grant o hyd at 75% o'r costau a ganiateir. Felly gellir gwneud cais am brosiectau hyd at £1000 o gostau cydnabyddedig y gyfrol a gellir cynnig cymhorthdal o hyd at £750 y gyfrol.

Mae disgwyl i'r Cyhoeddwr wneud ac ysgwyddo'r gost am waith marchnata sylfaenol y gyfrol. Golyga hyn:

- drefnu a thalu am bresenoldeb eu staff eu hunain a'r awdur/golygydd mewn digwyddiad;
- hysbysebu sylfaenol mewn papurau bro ayyb.;
- argraffu gwahoddiadau, posterï (yn enwedig yn achos argraffwyr-gyhoeddwr);
- gwneud datganiadau i'r wasg a gweinyddu sylw FB a Thrydar.



5 SUT A PHRYD I YMGEISIO

Disgwylir i'r cyhoeddwr wneud cais am grant marchnata o leiaf dair wythnos cyn y digwyddiad (neu'r digwyddiad cyntaf yn achos cyfres o ddiwyddiadau).

Ni dderbynnir ceisiadau am grant ar ôl i'r digwyddiad gael ei gynnal.

Gellir ystyried ceisiadau marchnata yng nghyfarfodydd yr Is-bwyllgor sy'n trafod ceisiadau yn benodol. Cynhelir cyfarfodydd yn rheolaidd. Hysbysir y cyhoeddwr o'r union ddyddiadau ymlaen llaw a rhoddir gwybodaeth ar y we yn ogystal.

Mae modd gwneud ceisiadau rhwng cyfarfodydd yr Is-bwyllgor drwy eu cyflwyno i'r Swyddogion a gall y Swyddogion gymeradwyo grant marchnata o hyd at £400. Adroddir yn ffurfiol ar y penderfyniadau hyn yng nghyfarfodydd llawn yr Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi.

Gwelir y manylion cyswllt er mwyn derbyn ffurflen gais ar ddiwedd y ddogfen hon.

6 TALU'R GRANTIAU

Gellir hawlio'r grant trwy ddefnyddio'r ffurflen hawlio briodol.

Dylai'r hawliad gyfateb i'r cais gyda'r eitemau gwariant wedi eu nodi mor fanwl â phosibl. Os oes amrywiadau dylid trafod gyda swyddogion y Cyngor a nodi'r amrywiadau ar y ffurflen hawlio.

Disgwylir i bob grant marchnata gael ei hawlio o fewn tri mis i'r digwyddiad (neu'r digwyddiad olaf mewn cyfres.) Oni wneir hyn, ceidw'r Cyngor yr hawl i ddiddymu'r grant.

Gweler y manylion cyswllt er mwyn derbyn ffurflen hawlio ar ddiwedd y ddogfen hon.

7 MONITRO A GWERTHUSO'R GWAITH A GEFNOGWYD

Wrth fonitro a gwerthuso llwyddiant y digwyddiadau ystyrir:

- Gwerthiant yn y digwyddiad;
- Nifer y mynychwyr;
- Cyrhaeddiad y sylw ar y cyfryngau torfol a'r cyfryngau cymdeithasol;
- Gwerth ychwanegol y tu hwnt i raglenni marchnata y wasg a CLLC.

Yn ogystal:

- Gall tystiolaeth o gynnydd mewn gwerthiant dros amser fod yn fanteisiol ar gyfer ceisiadau yn y dyfodol.

B AMODAU CYFFREDINOL

1. Rhaid i'r llyfrau y dyfernir grantiau marchnata ar eu cyfer fod yn llyfrau a gefnogir gan y Grant Cyhoeddi.



2. Bydd rhaid i'r llyfrau a werthir yn y lansiadau / ar y teithiau gael eu gwerthu gan lyfrwerthwyr cydnabyddedig, a bod y siop(au) wedi derbyn y llyfrau trwy Ganolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau.
3. Rhaid i'r llyfrau gyrraedd y Ganolfan Ddosbarthu o leiaf bythefnos cyn y digwyddiad a noddir. Bydd hyn yn sicrhau bod y llyfrau yn cael eu dosbarthu'n eang, a bod siopau trwy Gymru yn gallu manteisio ar y cyhoeddusrwydd a ddaw yn sgil y lansiad.
4. Gellir defnyddio'r arian ar gyfer unrhyw gostau a delir sydd ynghlwm â'r gweithgaredd hyrwyddo yn unol â'r polisi. (Ni ellir hawlio ffioedd i awduron.)
5. Dylid gyrru copi o unrhyw ddeunydd electronig at CLLC unwaith y mae ar gael.
6. Dylai pob deunydd hyrwyddo gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol gydnabod pwysigrwydd cefnogi siop lyfrau leol (ac nid cyfeirio at wefan y cyhoeddwr yn unig).
7. Dylid cydnabod cefnogaeth y Cyngor Llyfrau yn y digwyddiadau a gefnogir ac ar unrhyw ddeunydd, analog neu ddigidol, a gynhrychir.
8. Noder y cynigir hyd at 75% o'r swm a geisir a bod CLLC yn cadw'r hawl i dalu llai yn ddibynnol ar lwyddiant y gweithgaredd.
9. Yn achos cyflogi hyrwyddwr proffesiynol gofynnir i chi yrru copi o'u CV at y Cyngor unwaith yn unig.

Hawlio

- 10 Dylid hawlio'r grant o fewn tri mis i'r digwyddiad (neu'r digwyddiad olaf mewn cyfres) trwy anfon ffurflen hawlio i'r Adran Datblygu Cyhoeddi ynghyd â chopïau o anfonebau am y costau. Oni wneir hyn, ceidw'r Cyngor yr hawl i ddiddymu'r grant.
- 12 Telir unrhyw gostau teithio a chynhaliaeth yng nhyd-destun taith hyrwyddo yn unol â chyfraddau CLLC.

Ceir ffurflenni cais a gwybodaeth bellach oddi wrth:

**Dr Lynne Williams
Adran Datblygu Cyhoeddi
Cyngor Llyfrau Cymru
Castell Brychan
Aberystwyth
Ceredigion, SY23 2JB
Ffôn: 01970 629554**

E-bost: grantiau.cymraeg@llyfrau.cymru

**MAE'R DDOGFEN HON HEFYD AR GAEL YN SAESNEG /
AN ENGLISH-LANGUAGE VERSION OF THIS DOCUMENT IS ALSO AVAILABLE**